

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **10 Gorffennaf 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-07/17: Presennol**

Cadeirydd : Cyng Sian Williams; Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng Henry Jones; Cyng Elizabeth George; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Elizabeth Reagan; Cyng. Robert T Price; Cyng Wayne T Roberts; Cyng Eirwyn Williams;  
Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-07/17 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Dr E Tudor Jones

### **3-07/17: Datgan diddordeb**

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

### **4-07/17 Cadarnhau cofnodion mis Mehefin 2017**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-07/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)**

- a. Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Datblygu Iaith Hunaniaith, gwaith a oedd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, yn gwahodd y Cyngor i weithio ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yng Nghriccieth. Cyfeiriwyd i'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth, gyda'r bwriad o wahodd presenoldeb yn y diwrnod ymgynghori i'w gynnal ar 23 Medi.
- b. Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn – Cynllunio gyda'n gilydd i wella llesiant lleol –Roedd gwahoddiad i fynychu wahanol sesiynau i'w cynnal ym mis Awst. Cyfeiriwyd y gwahoddiad i'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth.
- c. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn – nodwyd bod Adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar gael ar y We ac hefyd byddai ar gael yn y llyfrgell yng Nghriccieth. Byddant mewn cyswllt eto i roi gwybod am benderfyniad y ddau Gyngor am fabwysiadu'r Cynllun – sydd yn un rhwymol.
- d. XK Club –Derbyniwyd llythyr o ddiolch i'r Clerc am fflagio ceir yn Bron Eifion adeg y Gyrru o Gwmpas Prydain i godi arian i Prostate Cancer UK – codwyd dros £50k ac roeddent ym falch o gael cefnogaeth y Cyngor i rhoi hwyl ar gychwyn y diwrnod. Byddant yn ôl yn 2018 gyda cheir Jaguar E type tro nesaf ac yn gobeithio y byddwn yn ymuno gyda nhw eto. 'Roedd y Clerc wedi cael hwyl yn chwifio baner y ddraig ar gychwyn eu taith o Griccieth.

## 6-07/17: Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd – Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a’r Llyfrgell –(ebost 30 Mehefin 2017)

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi sgwennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i holi am eglurhad o’r opsiynau posib ar gyfer dyfodol yr adeilad yn dilyn symud Llyfrgell Criccieth, a oedd wedi digwydd heb rhybudd o’r dyddiad oddiwrth Cyngor Gwynedd. Cafwyd ymateb gan Rheolwr Stadau Cyngor Gwynedd ar 30 Mehefin, yn ymddiheuro am y diffyg cyfathrebu. Roedd yr ymateb yn nodi y byddai “ *adeilad y llyfrgell yn weddill i anghenion Cyngor Gwynedd yn y dyfodol agos iawn a rhagwelir byddwn wedi ei drsogwlyddo nol i olynyddion John Thomas Jones neu, pen na fydd posib canfod olynyddion; wedi ei werthu yn y dyfodol agos.*” Cyfeirwyd at yr angen i’r Cyngor Tref ddarganfod gofod arall i gyfarfod a byddai Cyngor Gwynedd felly “*yn ddiolchgar pe buasai modd anelu i fod wedi adleoli erbyn Medi 2017 os nad ynghynt*”.

Cafwyd trafodaeth gan y Cyngor Tref am y sefyllfa, gan nodi amserlen afresymol ar gyfer y rhybudd yma, a oedd beth bynnag wedi dod i law yn dilyn llythyr gan y Cyngor Tref i Gyngor Gwynedd. Hefyd yn nhŷb y Cyngor Tref, os na fyddai yna ddisgynyddion i John Thomas Jones, roedd yn amlwg yn ôl y rhodd gwreiddiol o’r tir at ddefnydd llyfrgell i Griccieth bod yna gyfrifoldeb moesol i ystyried dyfodol yr adeilad at ddibenion y gymuned leol gan gofio hefyd buddsoddiad ac ymdrechion trigolion Criccieth i sefydlu y Llyfrgell dros ganrif yn ôl. Nid oedd swyddogion Cyngor Gwynedd wedi gwneud y sefyllfa yn wybyddus i’r Cyngor Tref pan drafodwyd yr opsiynau ar gyfer symud y Llyfrgell. Mae cofnod y Cyngor Tref 14-09/16 yn nodi: “*Nid oedd y swyddogion yn medru dweud ar hyn o bryd os y bydd yna ddisgwyliadau ar y Cyngor Tref o ran y drefniant newydd yma. Hefyd nid oes unrhyw wybodaeth parthed beth a fydd yn digwydd i adeilad presennol y llyfrgell a’r offer*”.

### Penderyfyniad:

- i ysgrifennu eto at Cyngor Gwynedd i ofyn am drafodaeth bellach.
- i ysgrifennu at y Neuadd Goffa i weld os oedd posibilid ar gyfer defnydd o ofod ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Tref.

- b. Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol 14 Mehefin 2017

Nodwyd bod y Clerc wedi mynychu y cyfarfod ac roedd copi o’r cofnodion wedi eu cylchredeg i’r Cyngor er gwybodaeth. Cafwyd cyflwyniad gan Mr Iwan Williams ar ran Comisynydd Pobl Hyn Cymru. Roedd y Clerc wedi cyfeirio at anfodlonrwydd y Cyngor Tref gyda sefyllfa torri gwair yn y dref, ac yn trafod opsiynau gyda Cyngor Gwynedd ar gyfer y dyfodol. Hefyd roedd wedi cyfeirio at y ffaith bod y Cyngor yn cyfrannu at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus yng Nghriccieth yn 2017/18.

- c. Un Llais Cymru - Corff Gwarchod Iechyd yn lobiö Gweinidog am ‘rwydd hynt’ i Feddygon Teulu weithio yng Nghymru (ebost 27 Mehefin 2017)

Roedd manylion wedi eu cylchredeg yn nodi bod Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru wedi rhoi hwb i’w hymgyrch am newidiadau a fyddai’n golygu y byddai Meddygon Teulu’n gallu dod i weithio’n rhwydd i Ogledd Cymru. Nodwyd bod “*argyfwng recriwtio Meddygon*

Teulu” – ac un o’r problemau oedd y “broses gofrestru” roedd yn rhaid iddynt gwblhau er mwyn gallu gweithio yma.

**Penderfyniad:** –y Clerc i ysgrifennu ar ran y Cyngor i fynegi ei cefnogaeth o’r ymgyrch hon gan y Corff Gwarchod Iechyd.

- d. Un Llais Cymru – Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol Un Llais Cymru 30 Medi 2017 (ebost 27 Mehefin 2017)

Nodwyd y byddai’r Gweinidog Mr Mark Drakeford yn mynychu y cyfarfod yma i rhoi cyflwyniad ar gynlluniau ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned

**Penderfyniad:** –y Clerc i fynychu.

- e. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Ymghynghoriad (ebost 5 Mehefin 2017)

Nodwyd bod yr ymateb drafft wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Llywio ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cyngor. Diolchwyd i’r Clerc am ei baratoi.

**Penderfyniad:** i gymeradwyo yr ymateb a’i ddanfôn i’r Awdurdod Tân.

- f. Diwrnod y Llynges 3 Medi 2017

Nodwyd bod y Clerc am archebu y faner a fydd yn chael ei chwifio o 1-4 Medi.

**Penderfyniad:** –y Cyngor i gael llun i gofnodi y cofio. Clerc i gadarnhau amser ar gyfer hyn.

- g. Cyngor Gwynedd: Ymghynghoriad Teithio Llesol 28 Mehefin 2017 tan 20 Medi 2017

Nodwyd bod yna ymghynghoriad am gyfnod o 12 wythnos chynhelir dau sesiwn galw draw cyhoeddus yn lleoll: Pwllheli 11/07 a Porthmadog 17/07. Roedd y Clerc wedi rhoi y manylion ar safle We y Cyngor.

### **7-07/17: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C17/0483/35/CR Amnewid nwyddau dwr glaw presennol sydd yn gymysg o haearn bwrw a plastig, gyda rhai plastig ‘cast iron style’ –Tŷ Criccieth, Porthmadog Road, Criccieth, Gwynedd, LL52 0HQ

**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

- b. C17/0599/35/LL Gosod ffenestr gromen ar yr edrychiad cefn – Delfryn, 1, Wellington Terrace, Criccieth, Gwynedd, LL52 0DB

**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

- c. C17/0524/35/LL Newid defnydd llawr cyntaf adeilad o ddefnydd fel uned breswyl (C3) i ddefnydd fel swyddfa (A2)

**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

- d. C17/0626/35/CR (cais dderbyniwyd yn hwyrach na chyhoeddi yr agenda ac ‘roedd angen ymateb cyn i’r Cyngor gwrdd nesaf) Addasiadau mewnol ac allanol i dŷ annedd – 27, Lon Castell, Criccieth, Gwynedd LL52 0DP

**Penderfyniad:** dim gwrthwynebiad.

Gan nad oedd cyfarfod o'r Cyngor tan Mis Medi, penderfynwyd yn ôl yr arfer i gylchredeg unrhyw geisiadau cynlluniau a dderbyniwyd i holl aelodau y Cyngor ar gyfer sylwadau, ac os byddai angen i gael cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w trafod.

#### **8-07/17 Diweddariad Cyllid 2017-18**

Roedd holl aelodau y Cyngor wedi derbyn copi o'r cyfrifon diweddaraf o sefyllfa gyllidol y Cyngor fyny at Mis Mehefin. Nodwyd y byddai'n debygol o fynd dros y gwariant sydd wedi ei glustnodi ar gyfer phroseictau/cyfraniadau oherwydd:

- costau trwsio y cysgodfannau cyn eu paentio;
- costau tebygol y cynlluniau ar gyfer Cynllun Cymunedol Criccieth.

Fodd bynnag, roedd digon o arian wrth gefn gan y Cyngor i dalu am y gwaith yma. Hefyd mi fyddai modd arbed gwariant mewn rhannau eraill o'r gyllideb.

Nodwyd y byddai ail dailiad praesept 2017/18 gan Cyngor Gwynedd yn cael ei dderbyn ym Mis Awst, ac mi fyddai yn ogystal Grant Cynefin, Hafod Y Gest, ac ad-daliad y TAW a dalwyd ar gyfer 2016/17.

**Penderfyniad:** y Clerc i drefnu cyfarfod o'r Is-Grŵp Cyllid i gwrdd ar ddyddiad i'w drefnu ym Mis Medi er mwyn adrodd nôl i'r Cyngor.

#### **9-07/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth- cofnodion cyfarfod 27 Mehefin 2017**

Nodwyd bod cofnodion y Grŵp wedi ei cylchredeg. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- a. Roedd y cynlluniau drafft a baratowyd gan y pensaer wedi eu cylchredeg. Rhoddwyd hawl i'r Grŵp Llywio drafod paratoi cynlluniau manylach gyda'r pensaer ar gost, er mwyn arddangos yn y diwrnod agored i'w gynnal ar 23 Medi i gael adborth/sylwadau ar Gynllun Cymunedol yn y Neuadd Goffa.
- b. Roedd grant o £1000 Cynefin – Hafod y Gest wedi ei gyfarwyd fel cyfraniad i gost y diwrnod agored.
- c. Roedd y cais grant ar gyfer y Prosiect Heddwch yn mynd yn ei flaen.
- d. Roedd posibilrwydd o wneud cais grant o dan y Cynllun Lle Arbennig.

**Penderfyniad:** Derbyniwyd yr adroddiad a'r cofnodion ac argymhellion y Grŵp. Cyfeiriwyd consyrn am gyflwr tyfiant yn yr Ardd Wylt i'r Grŵp Llywio, ar gyfer trefnu talu i gael torri llwybr priodol, fel bod modd i'r cyhoedd ddefnyddio y gofod.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Grŵp am 7.00 o'r gloch ar 18 Gorffennaf.

#### **10-07/17 Parcio yng Nghriccieth**

Nodi bod y Cynghorydd Eirwyn Williams a'r Cynghorydd Wayne Roberts wedi cael cyfarfod gyda Swyddog Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r parcio ger Dylan's a bod cadarnhad bod parcio tu fewn i'r llinellau dwbl melyn yn anghyfreithlon, ac y byddai o dan wyladwraeth. Hefyd, byddai cynllun yn cael ei baratoli ar gyfer darparu bolard yn ogystal a darparu llwybr troed. Roedd disgywl i'r cynllun fod ar gael ar gyfer barn y Cyngor Tref ym Mis Medi.

### **11-07/17 Goleuadau Nadolig**

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc wedi gofyn am gwôt diwygiedig gan y trydanwr er mwyn medru fforddio ymestyn y goleuadau ond nid oedd ymateb wedi dod eto.

**Penderfyniad:** i gyfeirio y mater i'r Grŵp Llywio.

### **12-07/17: Llwybr o Benaber i'r parc**

Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb gan Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd yn rhagweld y bydd y gwaith yn cymryd lle at ddiwedd Gorffennaf dechrau mis Awst ond nad oedd yna amserlen benodol eto.

### **13-07/17: Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod ymateb yr Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu dyddiedig 3 Gorffennaf Mehefin wedi ei gylchredeg. Roedd yr ymateb yn gofyn rhagor o gwestiynau i'r Cyngor a'r Clerc wedi danfon ebost mewn ymateb i hwn, yn gofyn am rhai ffeithiau cyn i'r Cyngor Tref fedru ymateb iddo. Roedd y Cyngor yn anfodlon gyda'r sefyllfa a'r diffyg ymateb er mwyn medru symud ymlaen gyda'r drafodaeth i sicrhau gwella safon torri gwair yn y dref. Nodwyd bod nifer o'r Cyngorwyr yn clywed cwynion gan y cyhoedd am y torri gwair.

**Penderfyniad:** Gwahodd yr Uwch Reolwr i gyfarfod Mis Medi o'r Cyngor Tref, i gael eglurder ar beth fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ad-dalu y Cyngor Tref pe byddai'r Cyngor yn cymeryd cyfrifoldeb am y torri gwair ar gyfer ardaloedd priodol yn y dref.

### **14-07/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol**

Nodwyd bod y Llyfrgell wedi symud i Encil y Coed – er nad oedd unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd am amseru y symudiad.

### **15-07/17:Cronfa John Trefor Roberts**

Nodwyd bod y Clerc yn dal i aros am y cytundeb a ofynnwyd amdano ac wedi swgennu e oi ofyn am y wybodaeth. Nid oedd y Cyngor yn fodlon gyda'r sefyllfa.

**Penderfyniad:** Y Clerc i sgwennu at y Comisiwn Elusennau.

### **16-06/17 Llwybrau Cyhoeddus**

Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb gan Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd yn rhagweld y bydd y gwaith yn cymryd lle at ddiwedd Gorffennaf dechrau mis Awst ond nad oedd yna amserlen benodol eto.

### **17-07/17: Derbyniadau**

Dim

### **18-07/17: Taliadau**

- Cyllid y Wlad (PAYE) £126.60 Siec 101067
- Cyflog y Clerc £506.69 Siec 101068
- Costau Swyddfa Clerc ...£283.33 Siec 101069
- R.J.Electrics (Nadolig 2016) ....£360.00 Siec 101070
- Un Llais Cymru (Cynhadledd 5/07/17) .....£50.00 Siec 101071
- Hampshire Flag Company Baner (Red Ensign) .....£38.39 Siec 101072
- Mr Paul Downes (Painter and Decorator)) .£1450.00 Siec 101073
- Cyllid y Wlad (PAYE) (Gorffennaf) £126.80 Siec 101074
- Cyflog y Clerc (Gorffennaf) ...£506.49 Siec 101075

- Atkin Groundworks ...£361.99 Siec 101076\*  
\*Roedd yr anfoneb yma wedi'i dderbyn ar ôl cyhoeddi'r agenda a rhoddwyd hawl i sgwennu ac arwyddo siec ar gyfer ei dalu gan nad oedd cyfarfod o'r Cyngor tan Mis Medi.

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Lun 4 Medi 2017**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 26 Awst 2017\*\***